



# Cynllun adfywio strategol ar gyfer Sir Gâr 2015-2030 – Trawsnewidiadau

# Cynnwys



02

Rhagair

ADRAN 1

05-26

Y sefyllfa bresennol

ADRAN 2

27-40

Projectau trawsnewidiol

ADRAN 3

41-42

Y dyfodol





**Sir Gâr** – sir yn llawn uchelgais, sir sy'n mynd amdani, â lleoliad da, cysylltiadau da, a nifer dda o brojectau eisoes ar y gweill. Mae'r sir wrthi'n dwyn ynghyd ei gwahanol rannau amrywiol er mwyn trawsnewid lles economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol Sir Gâr yn gyffredinol.

# Ffocws

Pleser mawr a thestun balchder i mi yw cyflwyno'r ddogfen hon i chi.

Mae Sir Gâr yn sir a welodd drawsnewidiad digyffelyb yn y blynyddoedd diweddaf, ac mae'r ddogfen hon yn goroleuo llawer o'r gwaith ardderchog sydd ar y gweill o ran adfywio'r sir, gan gyflwyno chwe phroject trawsnewidiol allweddol y bydd Cyngor Sir Gâr a'i bartneriaid strategol yn canolbwyntio arnynt am y 15 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn creu mwy na 5,000 o swyddi newydd gyda'r nod o greu economi yn Sir Gâr a fydd ar lefel o 90% o lefel Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) y DU ar gyfartaledd. Mae ein heconomi yn rhan o Ddinas-ranbarth arloesol Bae Abertawe sydd eisoes wedi dod â phrojectau newydd o fudd i Sir Gâr, a diau y bydd mwy yn y dyfodol.

Yn 2014, roedd 78,700 o bobl yn ddiwaith yn Sir Gâr, sy'n trosi'n gyfradd gyflogaeth o 67.9% (sy'n is na chyfradd y DU a Chymru ar gyfartaledd). O'r cyfanswm hwn, dim ond 31,300 a gyflogir o fewn naw sector blaenoriaethol Llywodraeth Cymru.

Mae'r sector preifat yn cynnal 69% o gyfanswm poblogaeth gyflogedig y sir, sydd yn tanlinellu pwysigrwydd menter ac arloesedd i ffyniant a lles cyffredinol y sir a'i thrigolion.

Rydym yn sir amrywiol ar lawer agwedd: perthyn i'n trefi a'n pentrefi nodweddion unigryw; mae ein dwyieithrwydd yn ein cryfhau a'n diffinio; mae'n cymuned fusnes yn gweithredu ar draws llawer o'r sectorau twf allweddol sy'n dod i'r amlwg. Mae ein darpariaeth dwristaidd a hamdden heb ei hail, yn cynnig cymaint i breswylwyr ac ymwelwyr ill dau. Cynigir safleoedd cyflogaeth strategol lle gall busnesau a gweithwyr ffynnu. Cawn elwa ar y lefelau uchel o gysylltedd digidol a geir bellach yn Sir Gâr ar yr aelwyd ac yn y gwaith, a gyda mwy o fuddsoddi yn yr isadeiledd cludiant, a mwy byth ar y gweill, teg yw dweud bod gan ein sir gysylltiadau gwych.

Rwy'n credu'n gadarn bod gan Sir Gâr y gymysgedd iawn o elfennau i osod y seiliau ar gyfer economi gref ac iach yn y presennol ac ar gyfer cenedlaethau i ddod. Gobeithio y gwna'r ddogfen hon i chi deimlo'n rhan o'r darlun mwy, gan rannu ein huchelgais a theithio'r ail filltir gyda ni.



**Emlyn Dole**

Arweinydd Cyngor Sir Gâr  
Leader of Carmarthenshire County Council





At ddibenion egluro yn unig





DEBENHAM'S

DEBENHAM'S

DEBENHAM'S



# 1

# 0

ADRAN







# Ar y trywydd iawn

Mae adfywiad Sir Gâr ar y gweill ers cryn amser, gyda nifer o ddatblygiadau mawr yn dwyn ffrwyth yn 2015. Mae'r dirwedd economaidd yn esblygu gyda safle Sir Gâr yn Ninas-ranbarth newydd Bae Abertawe, y mabwysiadodd y Cyngor y strategaeth ar ei gyfer; erbyn 2030, bydd Sir Gâr yn rhan hyderus, uchelgeisiol a chysylltiedig o Ddinas-ranbarth Ewropeaidd.

## Cyd-bwrpas

Mae datblygiadau cyfredol Sir Gâr a rhai'r dyfodol yn uchelgeisiol ac yn gryn her; ni all y sir eu gwireddu ar ei phen ei hun.

Mae ein Partneriaid yn Sir Gâr yn hanfodol i'n gweledigaeth a'n strategaeth dorfol. Mae'r cyd-bwrpas hwn a'n cydamcanion yn hwyluso canlyniadau cyflymach ac yn chwyddo adnoddau er budd i bawb. Mae dau o brojectau adfywio trawsnewidiol y sir yn cael eu hysgogi gan gyd-ymdrechion ardderchog ar y cyd ag academia yn Sir Gâr sy'n mynd o nerth i nerth. Mae'r gallu i weithio ar y cyd â budd-ddeiliad allweddol yn un o nodweddion hanfodol Sir Gâr a'i dyheadau tymor-hir.

## Y gymysgedd iawn

Sectorau, Safleoedd, Swnt a Shw'mae – Mae cyfansoddiad economi Sir Gâr yn gymysgedd o elfennau, oll wedi eu hategu gan safleoedd cyflogaeth strategol, busnesau mewn gwahanol sectorau, ac economi ddwyieithog, gysylltiedig ac unigryw, sy'n cynnig cyfleoedd eithriadol. Mae gan Sir Gâr rywbeth i'w gynnig i bawb, gyda ffordd o fyw, treftadaeth ac ymdeimlad o le sydd yn draddodiadol, yn fodern ac yn groesawgar.

# Dinas-ranbarth Bae Abertawe – Y pum amcan allweddol

1/

## Twf busnes, dargadwedd, ac arbenigo:

- + Datblygu diwylliant mwy entrepreneuraidd ledled y rhanbarth;
- + Annog marchnad fwy dynamig a chynaliadwy o safbwynt cychwyn busnesau;
- + Darparu cyngor busnes pwrpasol a chefnogaeth i ddargadwedd a thwf;
- + Gwell cefnogaeth i gyflogwyr mawr y rhanbarth yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ill dau;
- + Datblygu cymhelliant o'r radd flaenaf i ddenu cwmnïau i fuddsoddi yn y rhanbarth.

2/

## Bod â'r sgiliau a'r uchelgais a fydd yn sicrhau llwyddiant tymor-hir

- + Gwella cyrhaeddiad a chynyddu uchelgais yn ein hysgolion gwaethaf;
- + Sicrhau bod y ddarpariaeth Addysg Bellach ac Uwch yn cyfateb i anghenion y sectorau twf;
- + Targedu unigolion sydd mewn gwaith i'w hysbysu o gyfleoedd i hyfforddi, gwella'u sgiliau a symud ymlaen yn eu gyrfa;
- + Newid y meddylfryd a helpu pobl i fod yn fwy uchelgeisiol ynglŷn â'u dyfodol.

3/

## Creu'r nifer fwyaf o swyddi ar gyfer pawb

- + Cefnogi pobl yn ôl i mewn i waith trwy amrywiaeth o raglenni a dargedir yn benodol;
- + Cynyddu'r nifer o fusnesau newydd, yn cynnwys mentrau cymdeithasol;
- + Cynyddu cyfleoedd gwaith trwy gefnogi twf cyflogaeth ym musnesau'r rhanbarth;
- + Gwella cyfleoedd ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

4/

## Yr economi wybodaeth ac arloesedd


- + Datblygu strategaeth arloesedd gydlynol dymor-hir yn unol â syniadaeth yr UE;
- + Llawn wireddu posibiliadau tymor-hir Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd newydd Prifysgol Abertawe;
- + Mabwysiadu dull strategol o feithrin busnesau newydd trwy ddeori busnesau ac arloesedd;
- + Integreiddio a chyd-drefnu ein hadnoddau YaD yn well ledled y rhanbarth;
- + Sefydlu cysylltiadau a phartneriaethau rhyngwladol cryf.

5/

## Cyrchfannau nodedig ac isadeiledd cystadleuol

- + Llunio cynnig cydlynol i ddenu buddsoddwyr ac ymwelwyr;
- + Cynllunio gofodol effeithiol a strategol tymor-hir ar gyfer twf;
- + Datrys problemau cludiant strategol er mwyn datgloi twf tymor-hir;
- + Datblygu cyfleusterau Band Eang y Genhedlaeth Nesaf a 4G cystadleuol.





# Addewid partneriaid

Mae Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Chyngor Sir Gâr wedi arwyddo cytundeb i weithio gyda'i gilydd er budd i'r sir a'i chymunedau. Mewn ffordd newydd o fynd ati i weithio ar y cyd â'r sector cyhoeddus, mae'r addewid yn cynnwys camau penodol i'w cyflawni gan y ddau gorff, gydag atebolrwydd a thryloywder llawn. Mae'r ddwy asiantaeth yn aelodau o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gâr sy'n gweithio i sicrhau sir a fydd yn galluogi pobl i fyw bywydau iachus a boddhaol trwy weithio ynghyd i adeiladu cymunedau cryf, dwyieithog a chynaliadwy.

Mae'r addewid yn adlewyrchu nifer o feysydd allweddol sydd yn flaenoriaeth i'r cyngor a'r brifysgol, yn unol â chynllun strategol y brifysgol a'r canlyniadau a geisir gan y cyngor, ac mae'n nodi'r meysydd a ganlyn fel rhai sy'n teilyngu cyd-ymwmiadau penodol.

## Datblygu cynaliadwy

Bydd y partneriaid yn ymrwmo i ddarparu arweinyddiaeth gymunedol gref ar gyfer datblygu cynaliadwy yn Sir Gâr.

## Datblygiadau gwrth-dlodi, economaidd a chymunedol

Bydd y partneriaid yn cefnogi cydweithrediad rhwng cwmnïau a sefydliadau i ddatblygu mentrau â'r bwriad o hybu datblygiad economaidd o fewn Sir Gâr a'r dinas-ranbarth ehangach. Mae adfywiad strategol tref Caerfyrddin o bwys strategol i'r ddau sefydliad. Un maes y canolbwyntir arno o'r cychwyn fydd ymateb i her meithrin sgiliau yn y gymuned.

## Sgiliau a'r farchnad lafur

Bydd y partneriaid yn cydweithredu i hyrwyddo datblygu gweithlu medrus a'i gyfeirio i mewn i sectorau allweddol er mwyn cynyddu lefelau cynhyrchedd.

## Menter ac arloesedd

Bydd y partneriaid yn meithrin datblygiad economi sy'n seiliedig ar wybodaeth, gan ehangu'r cyfleoedd ar gyfer ymchwil a datblygiad, ac arloesi â chynnyrch a phrosesau newydd o fewn cwmnïau a sefydliadau Sir Gâr.

## Chwaraeon, diwylliant, twristiaeth a threftadaeth

Bydd y partneriaid yn hybu cydweithrediad ar gyfleoedd allweddol ym meysydd Chwaraeon, Diwylliant a Threftadaeth a all ddod â Sir Gâr, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, at sylw cynulleidfaedd newydd yn ogystal â'r rhai presennol.

Mae arwyddo'r cytundeb hwn yn dangos pwysigrwydd cydweithredu i'r Brifysgol ac i'r Cyngor, gan ganiatáu i Sir Gâr elwa ar gyfoeth profiad ac arbenigedd y Brifysgol er mwyn ysgogi twf economaidd yn y rhanbarth, ac archwilio cyfleoedd newydd yn ymwneud ag addysg a hyfforddi, yn ogystal â hamdden a thwristiaeth. Mae'r ddau gorff eisoes yn cydweithio'n glòs mewn sawl maes gwahanol, ond mae hwn yn gyfle iddynt weithio'n strategol gyda'i gilydd ar y projectau trawsnewidiol, er budd pellach i sir Gâr.







# Safleoedd adfywio strategol

## Llynnoedd Delta

Lleolir Llynnoedd Delta yn union i'r de o Lanelli, ger prif Ffordd Gyswllt yr Arfordir sy'n arwain at Lain Arfordirol Sir Gâr. Mae'r safle 34-erw hwn yn ddelfrydol ar gyfer cymysgedd o ddatblygiadau masnachol a busnes. Gyda'i olygfeydd allan dros y llyn a'r parcdir ar y naill ochr, a'r arfordir ar y llall, mae ei wedd a'i leoliad yn neilltuol o atyniadol. Yma, yn yr hyn a gredir yw'r lleoliad parc busnes mwyaf ei fri ym Morlan Elli, mae cyfle i ddatblygu parc busnes modern a chymysg ei ddefnydd i ddenu cwmnïau o sectorau twf allweddol fel Gwyddorau Bywyd, Gofal Iechyd a Gwasanaethau Ariannol. Yn ei grynsyth, gallai'r safle gynnwys tua 275,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr. Mae gan y safle wasanaethu nwy, trydan, dŵr, carthffosiaeth a chyfathrebu cyflawn hefyd.

Bwriedir codi swyddfeydd deulawr cyfoes yn Llynnoedd Delta ar gyfer defnydd sengl neu luosog, yn cynnwys canolfan 'pentref swyddfeydd' ar gyfer defnyddwyr llai. Byddai'r datblygiadau swyddfa hyn yn gweddu'n naturiol i ran flaen, arfordirol y parc, gan gynnig adeiladau trawiadol ar gyfer tenantiaid yn y dyfodol.

Y tu cefn i Llynnoedd Delta, yn wynebu'r llyn heli, bwriedir paratoi dau lain o dir i ddarparu ar gyfer diddordeb gan y sectorau gofal iechyd. Mae hyn yn cysylltu â datblygiadau diweddar sydd ar y gweill ar safle cyfagos. Paratowyd y rhan hon o'r parc ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn y diwydiant gofal iechyd preifat, gyda thirwedd gyfaddas, a nodweddion symudol ac ecolegol sy'n gweddu i'r sector.

## Y Goleudy

Sir Gâr yw lleoliad Y Goleudy – a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2011. Mae'r Goleudy yn gartref i rai o brif gwmnïau Sir Gâr. Wedi ei redeg mewn partneriaeth unigryw gyda Llywodraeth Cymru, Y Goleudy ar gyrion Llanelli, bum munud o Gyffordd 48 ar yr M4, yw un o'r lleoliadau busnes mwyaf atyniadol de Cymru, ac mae wedi datblygu ei arddull abennig ei hun. Mae'r Goleudy nid yn unig yn darparu gofod swyddfa penigamp a chysylltedd band-eang 100 mb chwim iawn, ond hefyd yn cynnig i aelodau cysylltiol amgylchedd entrepreneuriaidd, cydnaws â busnes, gofod deori busnes a chyfleusterau cynadledda.

Mae gan Y Goleudy safle sylweddol ei faint o dir lle gallai datblygiadau arloesol a phroffil-uchel esblygu o'r Goleudy a denu datblygiadau mewn sectorau allweddol fel gweithgynhyrchu uwch, gwyddorau bywyd, gwasanaethau proffesiynol neu fasnachol neu brojectau arbennig.

Yn gartref i sawl enw masnachol adnabyddus fel Chromogenex a Treharne Engineering, mae'r Goleudy hefyd yn cynnwys y to nesaf o fentrau busnes yng Nghymru. Mae'r enwau newydd sy'n gweithredu o'r Goleudy oll yn wirioneddol 'ifanc' o ran eu hoes fusnes a'u hagwedd fasnachol – mae'r 'pethau ifanc disglai' mawr nesaf yn dod i'r amlwg!

parhad →







# Safleoedd adfywio strategol parhad

## Parc Bwyd Cross Hands

Mae Parc Bwyd Cross Hands, y ganolfan ragoriaeth ddynodedig gyntaf ar gyfer technoleg bwyd yng Nghymru gyfan, yn fenter ar y cyd rhwng Cyngor Sir Gâr a Llywodraeth Cymru, ac mae'n ganolbwynt cyflogaeth chwilboeth ar gyfer y diwydiant bwyd yn ne Cymru. Mewn lleoliad strategol o fewn 5 munud i'r M4, dyma galon sir sy'n gyforiog o gynnyrch bwyd gyda llu o gyflenwyr o safon uchel gerllaw, sy'n cwtogi ar filltiroedd bwyd. Mae gan y Parc Bwyd, sy'n cynnwys unedau deori ar gyfer cynhyrchu bwyd, yn cyflogi mwy na 1,000 o bobl, ac mae'n dal i dyfu, gyda nifer o'r tenantiaid cyfredol wrthi'n ehangu ymhellach.

Mae enwau adnabyddus fel Bwydydd Castell Howell, cyfanwerthwr annibynnol mwyaf Cymru, Dawn Group Cross Hands, â'i 200,000 troedfedd sgwâr o ofod, Gower View Foods, un o'r cwmiau pacio bwyd mwyaf eu parch yn y DU, ac NR Evans, y cwmni cludo bwyd, oll yn gweithredu o'r parc. Gyda llu o gynhyrchwyr arbenigol ar y safle, a mwy o brojectau cyffrous ar y ffordd, mae Parc Bwyd Cross Hands yn cynnig popeth sydd ei angen ar gynhyrchydd bwyd modern i ffynnu.

Mae'r safle'n nesáu at aeddfedrwydd, ac mae'n elfen economaidd ganolog ym Mharth Twf ehangach Cross Hands. Gyda buddsoddiad o fwy na £50 miliwn yn y safle, a hwnnw'n cynyddu, mae Parc Bwyd Cross Hands wedi atgyfnerthu safle Sir Gâr fel sir gynhyrchu bwyd o'r radd flaenaf.





# Prif drefi

## Canol Tref Caerfyrddin

Saif tref Sirol Caerfyrddin ar lannau Afon Tywi yng nghalon sir Gâr. Lleolir y dref yn strategol ar gyffordd yr A48 ar A40 ac ar y rheilffordd sy'n cysylltu Llundain ag Abergwaun, a hi yw'r porth i orllewin Cymru. Fel prif ganolfan weinyddol Sir Gâr, mae'r dref yn un o brif gyflogwyr y sir a hefyd yn ganolfan fanwerthu ranbarthol sy'n gwasanaethu ardal gefn-gwlad eang. Mae hefyd yn gartref i gampws prifysgol pwysig.

Cadarnhawyd y byddai'r dref yn un o dair "Ardal Dwf" ochr yn ochr â Rhydaman/Cross Hands a Llanelli o fewn yr hierarchaeth aneddiadau ar gyfer Sir Gâr. Atgyfnerthwyd swyddogaeth fanwerthu'r dref yn 2010 gyda chwblhau datblygiad £75 miliwn Rhodfa'r Santes Catrin ar safle'r hen Fart. Mae'r datblygiad hwn, sy'n darparu mwy na 2,270 m<sup>2</sup> (245,000 tr. sg.) o ofod masnachol, yn cynnwys sinema Apollo a maes parcio aml-lawr newydd â lle i 950 o geir, ac mae wedi ei angori gan siop Debenhams newydd yn ei ganol.

Dywedodd dadansoddiad diweddar o ganol tref Caerfyrddin bod y dref yn cynnig darlun cryf o berfformiad ecomomaidd da ar y cyfan, er gwaethaf anhawsterau parhaus yn y marchnadoedd rhanbarthol a chenedlaethol ehangach. Cwblhawyd datblygiad newydd canol y dref cyn y dirwasgiad byd-eang, ond mae wedi llwyddo i gadw diddordeb tenantiaid, ac wedi sicrhau deiliadaeth lawn yn ddiweddar, yn ystod cyfnod tra chythryblus yn hanes manwerthwyr Prydeinig a lleol ill dau. Mae'r datblygiad newydd wedi cyd-doddi'n dda gyda gweddill canol y dre, ac mae'n cynnig amgylchedd o ansawdd uchel sydd yn denu siopwyr ac ymwelwyr eraill â Chaerfyrddin. Mae gweddnwidiad Caerfyrddin wedi arwain at greu project trawsnewidiol Gorllewin Caerfyrddin, sydd yn cynnwys datblygiad cyffrous 'Yr Egin' a fydd yn gartref i S4C.

parhad →



# A48

A48: Mewn lleoliad strategol

# £75m

£75m: Gwariwyd ar Rodfa'r Santes Catrin

# 2,270

2,270: Metrau sgwâr o ofod masnachol

# S4C

S4C: Ar ei ffordd i Gaerfyrddin





# Prif drefi parhad

## Canol Tref Llanelli

Hen dref ddiwydiannol yw Llanelli sydd wedi gweld cryn newid economaidd yn ystod y degawdau diwethaf, gyda thrawsnewidiad Llwybr Arfordirol y Mileniwm, ynghyd â datblygiadau tai newydd a buddsoddi cysylltiedig yng nghanol y dref. Angor y dref yw archfarchnad fawr Asda yn nghanol Canolfan Siopa'r Santes Elli a agorodd ym 1997, ac sy'n dal yn rhan gynhenid o ardal cerddwyr yn unig Stryd Stepney a siopau o fri yng nghanol y dref.

Yn y cyfamser, mae project adfywio Eastgate, drws nesaf i Stryd Stepney, yn cynnig cyrchfan hamdden newydd sy'n cynnwys Sinema Odeon a chaffis, bwytai a barrau cysylltiedig, mewn gofod o fwy na 14,000 tr sg, yn ogystal â 21,000 tr sg o swyddfeydd masnachol. Gwelwyd buddsoddiad sylweddol yng nghanol tref Llanelli yn ei phrif adeiladau dinesig, yn cynnwys y llyfrgell gyhoeddus a Thy Llanelli, adeilad rhestredig Gradd 1 a adnewyddwyd yn llwyr, gyda'r cwbl yn gampwaith cymuned, archaeoleg, hanes, diwylliant, medrau adeiladu a ffydd yn nhreftadaeth Llanelli.

## Canol Tref Rhydaman

Mae Rhydaman yn anheddiad lleol pwysig yn ne-orllewin Cymru sy'n cyflawni swyddogaeth bwysig o ran darparu gwasanaethau a chyfleusterau i'w chymunedau cyffiniol. Y gyn-dref lofaol hon yw'r anheddiad trydydd mwyaf o faint yn Sir Gâr, gyda chanol tref cymharol gryno sy'n ymgasglu o gwmpas croesffordd yr A474, yr A483 a llain Stryd y Cei i gerddwyr yn unig. Wedi ei leoli'n berffaith wrth droed y Mynydd Du a godre Dyffryn Aman, ac wedi ei wasanaethu gan Reilffordd Calon Cymru, mae canol y dre wedi ei angori ar y naill ben gan siop fwyd y Co-op, ac uned Wilkinson ar y llall, ar ben deheuol y dref. Ceir siop Tesco fawr hefyd ymhellach i'r de.

Mae Rhydaman yn cynnig profiad ymweld a siopa cyfeillgar, a gwelodd y dref fuddsoddi swm sylweddol yn ei hardaloedd cyhoeddus, fel y strydoedd, y dirwedd a gwelliannau i flaenwynebau siopau. Fu treftadaeth y dref erioed yn amlycach gyda sefydlu 'Gŵyl y Twrch Trwyth' yn ddiweddar, yn seiliedig ar chwedl y Mabinogi am y Brenin Arthur yn hela'r Twrch Trwyth yn nyffryn Amanwy.

# 1997

1997: Agor y Santes Elli

# 14,000

14,000: Troedfedd sgwâr yn East Gate

# 1

1: Chwedl Arthuraidd

# A483

A483: Wedi ei lleoli'n berffaith



## Trefi marchnad bywiog a pharthau twf y cymoedd

Nodwedd allweddol yng nghymeriad Sir Gâr yw ei chymysgedd ardderchog o drefi marchnad bywiog a parthau twf ei chymoedd a ddynodwyd yn ddiweddar.

Nodwyd saith tref farchnad yn y sir:

- + Llanymddyfri
- + Llandeilo
- + Castell Newydd Emlyn
- + Llanybydder
- + San Clêr
- + Hendy-gwyn ar Daf
- + Porth Tywyn

Dynodwyd parthau twf y cymoedd o gwmpas rhannau uchaf ac isaf Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth.

Gwnaed cryn dipyn o waith adfywio eisoes yn llawer o'r ardaloedd hyn yn ddiweddar, gan harddu cymunedau a gwella'u lles economaidd. Bydd y gweithgareddau adfywio yn canolbwyntio ar safloedd diffaith ac ar ddychwelyd hen adeiladau i ddefnydd economaidd. Canolbwyntir ar wella safloedd cyflogaeth o fewn yr ardaloedd hyn, trwy aildatblygu'r safloedd eu hunain a mentrau cefnogi busnes i sbarduno gweithgaredd economaidd. Byddwn yn gwella cysylltedd daearyddol a rhithwir trwy weithio gyda'n partneriaid allweddol. Mae'n hanfodol esgor ar y twf angenrheidiol tra'n sicrhau na chaiff ein treftadaeth, y profiad ymwelwyr a'r amgylchedd byth mo'u niweidio.

O ganlyniad i'r gwaith yn y trefi marchnad a pharthau twf y cymoedd, dylai llai o eiddo masnachol fod yn sefyll yn wag, a dylai gynhyrchu mwy o gwsmeriaid. Caiff buddsoddi cyhoeddus a phreifat ei ddenu i mewn, caiff swyddi eu creu, caiff pobl eu cefnogi i mewn i waith, a bydd lefelau tlodi yn gostwng.





# Twristiaeth, lletygarwch a hamdden

## Y gyrchfan

**“Cynnyrch twristaidd yw’r hyn rydych yn ei brynu – profiad twristaidd yw’r hyn rydych chi’n ei gofio.”**

Mae Sir Gâr yn adnabyddus fel un o’r cyrchfannau ymwelwyr mwyaf croesawgar, atyniadol a chofiadwy yng Nghymru. Caiff ei chydabod fel cyrchfan sy’n cynnig cyfoeth o brofiadau gwych i’r ymwelydd, yn amrywio o erddi byd-enwog i atyniadau i’r holl deulu ac amrywiaeth o fannau o ddiddordeb diwylliannol. Yn gynyddol, mae pobl yn ymweld ar hyd y flwyddyn er mwyn mwynhau ei chalendr cyfoethog o ddiwyddiadau a gwyliau, trefi marchnad cynnes a bywiog, canolfannau siopa modern, traethau glân, arfordir dramatig a’i chefn gwlad bryniog sy’n denu cerddwyr ac ymwelwyr mwy egniol. Mae’r gweithgaredd hamdden a gynigir yn amrywiol ac yn llawn cyffro! Mae Sir Gâr yn sir wirioneddol Gymreig, gyda’r iaith Gymraeg yn amlwg iawn – yn atgof sy’n ysbrydoliaeth i bawb o’r holl werthoedd a’r traddodiadau sy’n nodweddu’r ardal, ac sy’n dal yn fyw ynddi.

Mae twristiaeth a hamdden yn elfennau allweddol yn economi Sir Gâr, yn brif ffynhonnell cyflogaeth ac incwm sy’n cynnal tua 5,500 o swyddi cyfwerth â rhai amser llawn ac yn cyfrannu £326m o incwm i economi’r sir yn flynyddol (16% o gyfanswm Cymru gyfan). Treuliodd mwy na 5.4 miliwn o ddyddiau ymwelwyr yn y sir gan 2.9 miliwn o dwristiaid a fu’n aros yn un o’r 573 o fusnesau lletya gwahanol sy’n cynnig mwy na 19,000 o welyau. Dengys ymchwil o 2013 y byddai 92% o ymwelwyr undydd yn bendant yn dychwelyd i’r sir, a dywedodd 75% o ymwelwyr dros-nos o’r DU y byddent yn dychwelyd i fwrw noson eto.

Gall twristiaeth, o’i gynllunio a’i redeg mewn modd cynaliadwy, ysgogi buddiannau ehangach ledled y sir. Bydd gwariant ymwelwyr ar lety, bwyd a diod, hamdden a siopa yn hybu busnesau twristaidd ac annhwristaidd trwy’r cadwyni cyflenwi lleol, gwe gywrain o rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol sy’n dod â budd i fusnesau brodorol bychainn, anadl einioes cymunedau bywiog. Mae twristiaeth yn cyffwrdd â busnesau na all sectorau economaidd eraill mo’u cyrraedd. Bydd diwydiant twristaidd cryf ac economi ymwelwyr yn cynnal economi fwy llewyrchus yn gyffredinol, ac yn helpu i gynnal swyddi sy’n bod eisoes a chreu rhai newydd. Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Gâr yn amlinellu’r cyfleodd ar gyfer Sir Gâr yn y dyfodol a sut i’w gwireddu.

Mae gan Sir Gâr bum blaenoriaeth o ran sicrhau twf economaidd mewn twristiaeth:

- + Blaenoriaeth 1: Cynyddu proffil Sir Gâr
- + Blaenoriaeth 2: Gwella isadeiledd twristiaeth yn y sir
- + Blaenoriaeth 3: Gwella’r profiad twristaidd
- + Blaenoriaeth 4: Cynyddu’r Ymdeimlad o Le
- + Blaenoriaeth 5: Buddsoddi mewn pobl

Gweledigaeth Sir Gâr ar gyfer ei heconomi dwristiaeth yw:

**“Datblygu economi ymwelwyr lewyrchus yn Sir Gâr yn seiliedig ar ei chryfderau a’i chymeriad unigryw, a fydd yn cynhyrchu mwy o wariant ac incwm lleol, yn gloywi ei delwedd a’i henw da, ac yn gwella ansawdd bywyd cymunedau lleol.”**



5,500

5,500: Swyddi cyfwerth â rhai amser llawn yn y sector

£326m

£326m: Incwm ar gyfer y sir

92%

92%: Twristiaid sy'n bwriadu dychwelyd

2.9m

2.9m: Nifer blynyddol o dwristiaid





# Isadeiledd a chludiant

## Cysylltiadau

Gyda rhwydwaith helaeth 3,487 cilometr o hyd, yr ail hiraf yng Nghymru, llif traffig Sir Gâr yw'r trydydd uchaf yng Nghymru. Mae Sir Gâr yn llwybr cludo nwyddau pwysig iawn hefyd, sy'n cynnig mynediad i borthladdoedd yng ngorllewin Cymru, gyda'r A48 a'r A40 i'r gorllewin i Gaerfyrddin yn ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd. O fewn y sir, canolbwyntiwyd yn sylweddol ar gysylltedd gwledig lleol a hygyrchedd i gyflogaeth trwy welliannau i lwybrau bysiau a strategaethau cerdded a beicio. Mae Sir Gâr wedi gweithio'n galed hefyd gyda budd-ddeiliaid allweddol i wneud gwasanaethau rheilffyrdd yn fwy atyniadol a datblygu gwell gorsafoedd, cyfleusterau Parcio a Theithio ac amserlenni. Isadeiledd cludiant yw'r prif hwylusydd sy'n sail i sectorau eraill o'r economi. Cafodd isadeiledd strageol a lleol ei ddatblygu i hyrwyddo twf a gweithgaredd economaidd trwy ddarparu cysylltiadau gwell.

Mabwysiadodd Sir Gâr bedair egwyddor wrth ddatblygu ei hisadeiledd cludiant:

- + **Gwella hygyrchedd rhwng aneddiadau allweddol a safleoedd cyflogaeth**
- + **Gwella cysylltedd rhyngwladol**
- + **Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac effeithiau eraill cludiant ar yr amgylchedd**
- + **Cynyddu diogelwch**

Gall pawb weld ac elwa ar y buddsoddi a fu mewn cludiant ac isadeiledd yn Sir Gâr hyd yn hyn. Mae cydweithredu cynyddol ledled Dinas-ranbarth Bae Abertawe unwaith eto yn hwyluso buddsoddi pellach mewn chwe phroject isadeiledd allweddol o fewn y sir:

**Ffordd Gysylltu Cross Hands** – yn deillio o'r project trawsnewidiol ym Mharth Twf Cross Hands, project tri-cham sydd yn darparu mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol ac i ardal ehangach Cross Hands, yn cynnwys Penygroes a Chwm Gwendraeth.

**Ffordd Gysylltu Gorllewin Caerfyrddin** – ffordd gysylltu sy'n croesi o Travellers Rest ar yr A40 i mewn i'r ardal academaidd a chyfryngau newydd yn Heol y Coleg, Caerfyrddin, gan ddarparu mynediad ar gyfer y buddsodiad sydd ar y gweill gan S4C.

**Cyffordd Rhydaman** – bwriedir gwneud gwelliannau i gyffordd ar gefnffordd yn Rhydaman a fyddai'n ysgafnhau pwysau traffig yn y dre a rhoi gwell mynediad i rwydwaith ffyrdd ehangach Rhydaman a chanol y dref.

**Ffordd osgoi Llandeilo** – yn ôl amserlen rhaglen gyfalaf Llywodraeth Cymru, bwriedir cychwyn ar ffordd osgoi hir-ddisgwyliedig ar gyfer tref Llandeilo yn Nhyffryn Tywi o fewn y pum mlynedd nesaf, a fydd yn gwella lles amgylcheddol y dref yn sylweddol.

**Cysylltedd cefn-gwlad** – mae cysylltedd rhwng trefi marchnad y sir a chytrefi gwledig y sir yn hanfodol i fywyd sir Gâr. Bydd cydweithrediad gyda Traveline Cymru a budd-ddeiliaid allweddol eraill yn sicrhau parhad Bwcabus – y Model Cludiant ar gyfer Cefn Gwlad Cymru sy'n cysylltu â siroedd cyffiniol Phowys a Cheredigion hefyd.

**Cysylltau cerdded a beicio** – fel rhan o'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Teithio Llesol, cyfres o gysylltau cerdded a beicio er mwyn cynnig dewisiadau teithio cynaliadwy i safleoedd cyflogaeth, ysgolion ac atyniadau twristaidd, yn cynnwys cynllun yn rhan isaf Dyffryn Tywi.

# 3,487

3,487: Cilometrau o rwydwaith ffyrdd




# 4

4: Egwyddorion cludiant



# 6

6: Phroject isadeiledd allweddol o fewn y sir



# A40

A40: Ffordd Gysylltu Gorllewin Caerfyrddin





# Busnes a sgiliau

Cynhelir economi Sir Gâr gan ei chymuned fusnes amrywiol. O sail gref o hunan-gyflogaeth ar draws cytrefi Sir Gâr a'i heconomi wledig anferth, hyd at y mentrau bach a chanolig eu maint sy'n anadl einioes ar safloedd cyflogaeth allweddol, y sectorau newydd sy'n dod i'r amlwg, a'r cewri rhyngwladol yn y sir – mae cymuned fusnes Sir Gâr yn hynod o amrywiol.

Mae demograffiaeth gweithlu'r sir wedi newid cryn dipyn yn y blynyddoedd diwethaf, gyda sectorau cryf yn dod i'r amlwg yn ddiweddar. Mae tystiolaeth wedi'r dirwasgiad yn awgrymu bod cyflogaeth yn y diwydiannau creadigol, yr amgylchedd ynni, a bwyd ac amaethu oll wedi cynyddu.

Bydd y Dinas-ranbarth newydd yn cynnwys dyfodiad menter Cyflogwyr Pareto lle bydd busnesau ledled y Dinas-ranbarth yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gyfeiriad economaidd y rhanbarth, ac yn ffurfio polisi ar sail anghenion busnes. Mae Sir Gâr yn gartref i nifer fawr o gyflogwyr sydd o fewn sectorau twf allweddol Llywodraeth Cymru. Bydd y fenter hon hefyd yn golygu y caiff y rhanbarth ei hyrwyddo fel cyrchfan ddeniadol ar gyfer buddsoddi o'r tu allan yn y farchnad fuddsoddi fyd-eang – mae llawer o'r gwaith hwn eisoes ar y gweill mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a Bwrdd Dinas-ranbarth Bae Abertawe o dan gadeiryddiaeth Syr Terry Matthews.

O safbwynt sgiliau, mae sawl her i'w hystyried hefyd. Dangosodd ymchwil y Cynllun Cyflawni Rhanbarthol ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau bod yna ddiffygion sgiliau cyffredinol amlwg yn y sectorau Bwyd, Twristiaeth a Chreadigol, er enghraifft. Y diffygion amlycaf oedd: arweinyddiaeth a rheolaeth; gweinyddiaeth busnes; a gwerthiant a marchnata. Gan weithio gyda'r sector academaidd a datblygwyr sgiliau ledled de-orllewin Cymru, ac ystyried ei

bwysigrwydd o fewn Dinas-ranbarth Bae Abertawe, mae'r Cyngor Sir yn gweld datblygu'r gweithlu fel mater o'r pwys mwyaf.

Ers 2008, mae Cyngor Sir Gâr, yn gweithio mewn partneriaeth â budd-ddeiliaid fel Siambr Fasnach De Cymru ac awdurdodau lleol cyfagos, wedi darparu grantiau o'r Gronfa Fuddsoddi Lleol i 460 o fusnesau yn y sir, cyfanswm o fwy na £2 filiwn, sydd wedi denu £3.2 miliwn pellach o fuddsoddi preifat, gan greu mwy na 400 o swyddi a diogelu 1800 arall. Bu'r cynllun hwn yn llwyddiant diamheuol ar draws y rhanbarth.

Mae mentergarwch yn y sir mor gryf ag erioed. Mae Cyngor Sir Gâr yn gweithio'n uniongyrchol gyda chyflogwyr allweddol a darparwyr addysg o fewn y sir i hogi sgiliau gweithlu'r dyfodol; mae hyn yn mynd yn fwyfwy poblogaidd gyda llawer o gyflogwyr sy'n edrych yn strategol ar amserlen a fydd yn cydreddeg ag adfywiad economaidd cyson Sir Gâr. Trwy fenter Gweithffyrdd, a luniwyd i helpu rhai sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith, ers 2009 ymgysylltwyd â 2,500 o gleientiaid, a sicrhodd mwy na 40% o'r rheini swyddi llawn-amser a'u cadw, gyda busnesau ym mhob sector ledled y sir, sef cyfanswm o fwy na 1,000 o swyddi o ganlyniad i'r cynllun hwn yn unig.

Sir Gâr hefyd yw cartref Canolfan Menter Y Goleudy – safle mewn lleoliad strategol a redir gan Gyngor Sir Gâr, lle mae busnesau o safon byd-eang yn gweithredu ochr yn ochr â mentrau newydd a rhai ifanc mewn amgylchedd proffesiynol yn y fenter unigryw hon, lle cyflogir mwy na 150 o bobl. Bu'r Goleudy'n llwyddiant, gan ddarparu gwasanaeth angenrheidiol yn uniongyrchol i'w denantiaid busnes; yn sicr, mynd o nerth i nerth fydd hanes y fenter allweddol hon a'i holl wahanol elfennau.

# 460

460: Busnesau a dderbyniodd grant

# £3.2m

£3.2m: Buddsoddi preifat a ddenwyd

# 1,000

1,000: Swyddi Gweithffyrdd a grewyd

# 150

150: Nifer sy'n gweithio yn Y Goleudy









ADRAN

# ORZ





# Nesaf...

Dyna osod y llwyfan ac mae'r gwaith adfywio a gyflawnwyd yno i bawb ei weld a'i fwynhau. Bydd y daith nesaf yn gweld chwe phroject trawsnewidiol yn ymddangos ar dirwedd economaidd Sir Gâr. Rhagwelir y byddant o'r un maint â phrojectau cyffelyb ledled Cymru a'r Dinas-ranbarth, a byddant yn creu rhyw 5,000 o swyddi.

Daethpwyd o hyd i ragor o fuddsoddwyr posibl, a sicrhawyd peth o'r buddsoddiad, gyda mwy i ddod. Trwy weithio mewn partneriaeth gref gyda'n budd-ddeiliaid yn ein sir, gallwn wireddu'r projectau trawsnewidiol hyn.

Cyflawnwyd llawer o'r gwaith o gynllunio'r projectau hyn dros y blynyddoedd diwethaf diolch i dîm Adfywio egnïol, targedu'r buddsoddi, cydweithio deallus, ffyrdd arloesol o fynd ati, a'r ewyllys i ddarparu popeth angenrheidiol.

Y chwe phroject trawsnewidiol allweddol yw:

- + Rhydaman
- + Caerfyrddin
- + Llain Arfordirol Sir Gâr
- + Parth Twf Cross Hands
- + Llanelli
- + Yr Economi Wledig



# Rhydaman

**Tref farchnad gref a bywiog wrth droed y Mynydd Du, wedi ei diffinio gan Ddyffryn Aman a Dyffryn Tywi. Nodwyd deg mesur gwaith i'w gweithredu o fewn y dref.**

Mae'r deg maes gwaith yn amrywio o ran maint ac yn torri ar draws lleoliadau o fewn y dref. Bydd llawer o'r gwaith yn cael ei flaenoriaethu ar sail y broses ymgynghori gynhyrchiol sy'n parhau gyda fforwm Rhydaman, grŵp pwysig o fudd-ddeiliaid allweddol yn y dref, yn cynnwys cyrff cyhoeddus a chynghorol a'r gymuned fasnachol.

## Cludiad a symudiant

Cydnabyddir ledled y sectorau cyhoeddus a phreifat ill dau bod posibiliadau twf economaidd mawr yng nghylch Rhydaman, a'i bod yn amlwg y byddai gwelliannau cludiant yn ysgogiad i hyn. Y ffocws pennaf ar gyfer gwelliannau i gludiant yw'r ardal o gwmpas goleuadau traffig cyffordd Tir-y-Dail a Wind Street. Dangoswyd y byddai datrys problemau trwy osod cylchfan a buddsoddi rhyw £2.5m yn y fan yma yn dod â buddiannau sylweddol i Rydaman a'r cyffiniau ehangach. Byddai'n hwyluso teithio i weithwyr ac ymwelwyr yn y cyffiniau cyfagos; amcangyfrifir y gellid arbed gwerth rhyw £2.3m o amser, a gwella'r cysylltiad â'r A483 a Dyffryn Tywi hefyd. Bydd hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar hygyrchedd gwaith – bydd mwy na 2,000 o swyddi yn Sir Gâr yn unig yn dod yn fwy hygyrch o ganlyniad i'r gwelliannau hyn, ynghyd â'r cyrhaeddiad pellach i mewn i economi Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Amcangyfrifir y byddai budd economaidd y fath welliant yng nghyffiniau £82m dros 60 mlynedd.

Mae sicrhau cyllid ar gyfer datblygu ffordd gysylltu Tycroes-Rhydaman yn uchelgais fawr gan Gyngor Sir Gâr hefyd. Dyhead yn unig yw hynny ar hyn o bryd; fodd bynnag, y mae'n rhywbeth y carem ei gyflawni fel cam adfywio allweddol.

## Gofod cyflogaeth

Mae ar Rydaman angen gofod cyflogaeth o safon. Mae cynlluniau ar y gweill i ailwampio ac adnewyddu gweithdai Glanamau – bydd buddsoddi yn y safle hwn yn dod â gofod diwydiannol y mae mawr angen amdano yn ôl i'r farchnad. Mae ariannu datblygiadau fel hyn yn golygu gweithio gyda chyllidwyr grantiau allanol, partneriaid yn y sector preifat, a defnyddio dulliau arloesol i sicrhau'r canlyniad. Mae cyfleoedd i gynyddu gofod siopa a'r farchnad ar ben pella Stryd y Cei yn cael eu harchwilio hefyd.

## Safleoedd porth

Mae dau safle porth yn Rhydaman yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, sef safle cyn-Swyddfa'r Heddlu, a safle Rhos Ffowndri, at ddefnyddiau hamdden yn y naill achos a thai yn y llall. Mae'r ddau broject yn ennyn diddordeb gan ddatblygwyr a buddsoddwyr preifat. Gallai safle cyn-Swyddfa'r Heddlu weld swyddi'n cael eu creu yn y sector hamdden a buddsoddi mewn gwelliannau traffig yn y cylch, gan hwyluso gwneud defnydd economaidd o safleoedd porth allweddol.

Mae sawl menter Datblygu Cymuned ehangach trwy raglen Cymunedau yn Gyntaf yn Rhydaman sy'n cyfrannu a chynnal adfywiad y dref. Bydd y rhaglen hon yn parhau i weithio yn yr ardal, gan ganolbwyntio ar dair thema Ffyniant, Iechyd ac Addysg, oll â'r nod o fynd i'r afael â thlodi. Cyflawnir hynny trwy ganolbwyntio ar gefnogaeth ddigidol, sylfaenol a chynhwysedd ariannol; rhaglenni gwirfoddoli; a datblygu sgiliau.

parhad →
















# Caerfyrddin

Mae Caerfyrddin ynnddi ei hun wedi cael ei dynodi'n ardal Trawsnewid. Tra bod Caerfyrddin wedi chwarae ei rhan mewn gweithgareddau adfywio o bwys yn cyfnod diweddar, mae cymaint o gyfleoedd newydd ar gael i'r dref bellach. Bydd y datblygiadau yng Ngorllewin Caerfyrddin, yr Egin, a'r dref yn gyffredinol yn cynnig cyfleoedd adfywio dros y 15 mlynedd nesaf.

Gorchest ddiweddaraf a mwyaf nodedig Caerfyrddin oedd penderfyniad S4C i adleoli i Gaerfyrddin. Bydd 'Yr Egin – Y Gyfnewidfa Greadigol', canolfan gyfryngau a diwylliant newydd ar gampws Caerfyrddin Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, yn cael ei datblygu gyda'r darlledwyr fel y tenant angori. Bydd 55 o staff craidd S4C yn adleoli yma gan greu pencadlys newydd S4C yng Nghaerfyrddin. Bydd Yr Egin yn cael effaith hynod bositif fel canolfan genedlaethol ar gyfer y diwydiannau creadigol yn ogystal â "siop-un-stop" ar gyfer cynhyrchwyr teledu annibynnol a chwmnïau aml-gyfrwng. At hynny, bydd yr Egin yn gwneud gwaith rhagorol o ran hyrwyddo Caerfyrddin fel porth i'r Fro Gymraeg. Bydd y gofod swyddfa a gwaith o fewn Yr Egin, yn ogystal â datblygiadau pellach o bosib yn y gyfnewidfa greadigol newydd, yn esgor ar ryw 200 o swyddi llawn-amser. Yn ychwanegol at hynny, bydd swyddi rhan-amser pellach a phrentisiaethau yn cael eu creu.

Yn seiliedig ar luosyddion cyflogaeth anuniongyrchol ac anwythol yn deillio o ddadansoddiadau blaenorol o effaith economaidd S4C, dylai'r gyflogaeth uniongyrchol gynnal rhyw 500 o swyddi eraill yn y rhanbarth. Yn ychwanegol at y budd i'r iaith Gymraeg a'r economi, ceir

buddiannau cymunedol pwysig iawn hefyd, gan y bydd y fath ddatblygiad amlwg a thrawiadol yn effeithio'n bositif ar statws yr ardal yn gyffredinol, o safbwynt y modd y mae'n ei chanfod ei hun yn ogystal â chanfyddiadau eraill ohoni.

Mae Gorrlewin Caerfyrddin yn chwarae ei rhan hefyd o ran agor yr ardal i adfywio a gweithgaredd economaidd cynyddol. Bydd yr elfen hon yn nhwf Caerfyrddin yn ychwanegu ffordd gysylltu newydd at y rhwydwaith isadeiledd lleol, gan gynyddu symudiant a llif traffig tuag at y datblygiadau newydd yn gysylltiedig â'r Egin ac S4C. Bydd y ffordd gysylltu'n croesi o Travellers Rest ar yr A40 i mewn i'r ardal academaidd a chyfryngau newydd yn Heol y Coleg, Caerfyrddin. Bydd y buddsoddiad hwn yn gyfrwng cynyddu'r stoc tai lleol hefyd; caiff o 1,200 o gartrefi eu hadeiladu ar hyd y ffordd newydd.

Mae gan dref Caerfyrddin ei Phrif Gynllun ei hun hefyd. Datblygwyd hwn mewn ymgynghoriad llawn o dan arweiniad Fforwm Adfywio Tref Caerfyrddin, ac mae'n canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth:

- + Twf marchnata a thwristiaeth
- + Gwella'r parth cyhoeddus a'r amgylchedd adeiledig
- + Symudiant ac isadeiledd
- + Cyfleoedd masnachol yn y dyfodol

Mae'r prif gynllun nid yn unig yn ddogfen fanwl sy'n rhoi cyfeiriad a gweledigaeth i'r dref, ond hefyd yn enghraifft o ymgynghori delfrydol rhwng gwahanol fudd-ddeiliaid y dref. Mae'r cynllun yn cyflwyno dyheadau uchelgeisiol sydd serch hynny'n gyflawnadwy.

parhad →





# Caerfyrddin

## parhad

Mae ardaloedd cei'r afon wedi eu cysylltu trwy eu pwysigrwydd hanesyddol a'r parth cyhoeddus. Maent hefyd yn gysylltiedig â datblygiadau Pensarn a Glan yr Afon. Mae ardal yr "Hen Dref" o gwmpas Heol y Brenin a Lôn Jackson yn ardal glir ei diffiniad, ddynodedig, lle diogelir a hyrwyddir nodweddion traddodiadol a hanesyddol canol y dref, tra'n cynnig amrywiaeth o gyfleusterau a phrofiadau modern ar gyfer yr ymwelydd. Bydd y pwyslais o ran y cynnyrch a werthir ar siopau bychain, annibynnol ac arbenigol sy'n cynnig profiad amgen i'r siopau cadwyn mwy o faint yn natblygiadau siopa modern Rhodfa Myrddin a Rhodfa'r Santes Catrin.

Clustnodwyd nifer o safleoedd i'w datblygu'n fasnachol yng nghanol y dref hefyd, ac ar stadau manwerthu a diwydiannol cyfagos yn Llangynnwr a Phibwrlwyd. Yn ddi-os, bydd sefydlu S4C yng Nghaerfyrddin yn dod â mentrau eilaidd a thrydyddol yn ei sgîl a fydd yn chwilio am safleoedd newydd yn agos at S4C, y dref, a'r prif gysylltffyrdd.

Trwy gyfrwng ei berthynas â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Choleg Sir Gâr, bydd Cyngor Sir Gâr yn gweithio i ddatblygu campws presennol Coleg Pibwrlwyd yng Nghaerfyrddin fel rhan o Broject Trawsnewidiol ehangach Caerfyrddin. Mae'r cynigion ar gyfer y safle yn hanfodol i lwyddiant tymor-hir Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant sy'n cynnwys Coleg Sir Gâr.

Yn strategol, mae'r safle'n allweddol i dwf cyflogaeth ar gyfer Caerfyrddin yn y dyfodol, a fydd yn cadarnhau a chynyddu statws Caerfyrddin yn rhanbarthol trwy ddarparu twf cynaliadwy.


Gellir atgyfnerthu ac ailddatblygu elfennau presennol Coleg Sir Gâr a chreu parc busnes yn canolbwyntio ar gyflogaeth gydnaws â gweithgareddau'r coleg.

Y weledigaeth ar gyfer Pibwrlwyd:

- + **Gwireddu strategaethau a blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol**
- + **Bod yn ddatblygiad porth ar gyfer Caerfyrddin**
- + **Cysylltu busnes, menter, dysg a hamdden**
- + **Cysylltu'r dref â'r sir a'r rhanbarth**
- + **Datblygu creadigrwydd ac arloesedd**
- + **Datblygu addysg drydyddol a sgiliau**
- + **Ffordd sector-deublyg y Brifysgol o fynd ati, yn seiliedig ar bartneriaeth**

Bydd yr holl gyfleoedd ledled Sir Gâr yn elwa hefyd ar yr ystyriaeth ofalus a roddir i amgylchedd naturiol a threftadaeth yr ardal.







## Llain Arfordirol Sir Gâr

Â Llain Arfordirol Sir Gâr â ni ar siwrnai o'r dwyrain i'r gorllewin ar hyd arfordir dramatig y sir. Gan gychwyn o'r Bynie a diweddu ym Mhentywyn, mae'r daith yn datgelu llecynnau gwasgaredig o gynlluniau adfywio ar draws ehangder o 50 milltir sy'n cynnwys De Llanelli, Penrhyn Pen-bre ac aberoedd Bae Caerfyrddin. Ceir yma gyfoeth o asedion naturiol y gellir eu defnyddio'n sensitif ar gyfer datblygu economaidd.

Bydd gwaith adfywio Cyd-fenter Morlan Elli o'r Bynie i Ben-bre yn parhau. Mae cytundeb y Gyd-fenter yn dod i ben yn 2017; fodd bynnag, ym marn Cyngor Sir Gâr, mae'r safleoedd datblygu yn hanfodol ac yn flaenoriaeth ar gyfer adfywio yn y dyfodol, a bydd yn parhau i arwain y datblygu. Mae'r record hyd yma yn amlwg: ffyrdd cysylltu; cwrs golff; llwybrau beicio; safleoedd cyflogaeth; sefydliadau meddygol; safleoedd natur; tai a hamdden, oll yn wynebu glan môr Llanelli.

Bydd y tair blaenoriaeth dymor-hwy ar gyfer Morlan Elli yn gweld Llynnoedd Delta, Doc y Gogledd Phorth Tywyn yn cael mwy o amlygrwydd.

Mae Llynnoedd Delta, safle 34-erw ger llaw ffordd gysylltu'r arfordir, yn ddelfrydol ar gyfer cymysgedd o ddatblygiadau masnachol a busnes. Gyda'i olygfeydd o'r llyn a'r parcdir ar y naill ochr, a'r arfordir ar y llall, mae'r lleoliad yn neilltuol o atyniadol. Yn yr hyn a ystyrir yn lleoliad mwyaf ei fri Morlan Elli, mae cyfle i ddatblygu parc busnes modern a chymysg ei ddefnydd yn unol â'r awydd i ddenu cwmnïau o sectorau twf allweddol fel y sectorau Gwyddorau Bywyd, Gofal Iechyd a Gwasanaethau Ariannol. Yn ei grynswth, gallai'r safle gwmpasu rhyw 275,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr, gan gynnig cyfleoedd cyflogaeth sylweddol a digon o le.

Mae safle deunaw erw Doc y Gogledd, echel Morlan Elli, wrth galon Parc Arfordirol y Mileniwm ac mae'n edrych allan dros Fae Caerfyrddin a'r doc ar ei newydd wedd. Mae Doc y Gogledd wedi esblygu dros y blynyddoedd, gan greu amrywiaeth o gyfleoedd datblygu. Tyfodd i fod yn gyrchfan naturiol i ymwelwyr, gyda mwyfwy'n ymweld o flwyddyn i flwyddyn oherwydd y llu o weithgareddau hamdden a gynigir gan Ddoc y Gogledd. Ar ben ucha'r doc ceir y cyfleoedd datblygu presennol – rhai'n addas at ddefnydd masnachol fel caffi bar, bwyty a gwesty trawiadol. Bydd y rhain yn creu ffocws gweledol bywiog o'r bont fynediad i'r doc a chreu chysylltau ymhellach i'r gorllewin ar hyd Morlan Elli i mewn i'r datblygiadau hamdden ac adloniant ehangach yng Ngwaith yr Hen Gastell.

Buddsoddwyd yn helaeth hyd yn hyn ar addasu hen harbwr llanw Porth Tywyn yn farina modern ac eto, mae wedi cadw ei swyn Fictoraidd, brin daflid carreg o ganol y dref fechan ond fyrlymus hon. Buddsoddwyd mewn isadeiledd a chludiant i wneud yr ardal yn fwy hygyrch ac erbyn hyn mae'n cynnig mynediad perffaith i benrhyn Pen-bre. Cydnabyddir penrhyn Pen-bre eisoes fel cyrchfan dwristaidd ac mae'n cynnig posibiliadau buddsoddi anferthol, er mwyn elwa ar atyniadau presennol fel cae ras Ffos Las, Parc Dyfaty, Parc Gwledig Pen-bre a Maes Awyr Pen-bre. Bydd cyfleoedd buddsoddi pellach yn dod i'r amlwg mewn datblygiadau siopa, preswyl a hamdden. Gwneir arolwg strategol a phrif gynllun o Benrhyn Pen-bre er mwyn nodi cyfleoedd adfywio ledled yr ardal.

parhad →







# Llain Arfordirol Sir Gâr

parhad

O gefnu ar y Penrhyn tua'r gorllewin, gwelir y buddsoddi diweddar yn Nghei Cydweli sydd yn gwella mynediad a'r parth cyhoeddus, ac i mewn i aberoedd Bae Caerfyrddin. Os edrychwn ar fap o Lain Arfordirol Sir Gâr, gwelwn ffurf 'het gwrach' y tair afon y mae eu haberoedd yn llochesu perlau glan-môr fel Glan-y-Fferi, Llansteffan, Talacharn a Phentywyn.

Mae Llain Arfordirol Sir Gâr yn cynnwys myrdd o gyfleoedd masnachol, yn awr ac yn y dyfodol. Mae syniadau amgen yn cael eu hystyried ar gyfer gweithgareddau tywydd-gwlyb a chynnyrch a syniadau arloesol sy'n cynnig rhywbeth newydd sbon i'r llain arfordirol. Cynyddu nifer yr ymwelwyr, cynnig adnoddau o safon, a chynyddu gwariant ymwelwyr yw'r prif amcanion ar hyd y llain.

Fe wêl Pentywyn, yn enwedig, fuddsoddiad sylweddol a chyllun adfywio yn y dyfodol, yn cynnwys datblygu canolfan amgueddfa, eco-hostel, a llety ynghlwm wrth weithgareddau awyr-agored, buddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau parcio, a gwaith tirlunio a harddu'r parth cyhoeddus. Fel rheol, ymgwymerir â math yma o broject gyda phartneriaid o'r sector preifat a chyllidwyr grantiau allanol er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i'r ardal, a llai o ymrwymiad ariannol gan Gyngor Sir Gâr. Mae'r fath fuddsoddiad mawr ym Mhentywyn yn arddangos pwysigrwydd y sector twristiaeth i'n sir – bydd y projectau hyn ym Mhentywyn ar raddfa nas gwelwyd erioed o'r blaen, ac ynghyd â'r atyniadau yn Llanelli, byddant yn cau pen y mwdwl yn hardd ar Lain Arfordirol Trawsnewidiol Sir Gâr.









# Parth Twf Cross Hands

Mae Parth Twf Cross Hands wedi dod i'r amlwg fel project Trawsnewidiol o blith amrywiaeth cyffrous o ddatblygiadau unigol wedi eu clystyru o gwmpas anheddiad Cross Hands sy'n gwneud argraff aruthrol o ran adfywio'r cyffiniau. Mae'r cwbl ar wahanol gyfnodau yn eu datblygiad ac yn cyfrannu'n sylweddol at dwf economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Mae pum safle datblygu blaenllaw yn Cross Hands:

## Y Parth Bwyd – Parc Bwyd Cross Hands

Mae Parc Bwyd sefydliedig Cross Hands yn gartref i rai o fusnesau bwyd mwyaf cynhyrchiol y DU ac mae'r safle'n cyflogi rhyw 1,000 o bobl. Mae lle o hyd i ddatblygu'r parc bwyd ymhellach a manteisio ar y buddsoddi sylweddol a fu ynddo, gyda'r cyfnod canol hwn yn cynnig cyfle pellach i fuddsoddi.

## Y Parth Busnes – Parc Busnes Cross Hands

Datblygiad 38-hectar defnydd-cymysg sy'n cynnal siopau mawr a sefydliadau masnachol, sy'n safle cyflogaeth pwysig ynddo'i hun, gyda rhyw 800 o bobl yn gweithio yno. Mae gan y parc bedair hectar ychwanegol ar gael ar gyfer twf manwerthol a masnachol.

## Y Parth Cyflogaeth – Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands

Cwblhawyd Cam 1 y Parth, sy'n cael ei adeiladu mewn dau gam, a bydd yn cynhyrchu mwy na 17,000 metr sgwâr o ofod llawr ar draws 8.5 hectar o dir. Bydd y safle'n gartref i fusnesau'r genhedlaeth nesaf ynghlwm wrth sectorau allweddol fel gwyddorau bywyd, gwasanaethau cyllidol a phroffesiynol, gweithgynhyrchu uwch, diwydiannau

creadigol, a thechnolegau bwyd-amaeth. Bydd y safle'n gymysgedd o ddefnyddiau diwydiannol o ansawdd uchel, swyddfeydd, a gwestai o bosib. Ymdrechwyd yn galed i barchu planhigion ac anifeiliaid y cylch a lleihau effaith y safle ar yr ecoleg leol. Disgwylir i Gam 1 greu rhyw 650 o swyddi, a rhagwelir 500 arall gyda Cham 2.

## Y Parth Defnydd Cymysg – Gorllewin Cross Hands

Bydd gan y parth defnydd-cymysg, sy'n cael ei ddatblygu ar draws 21-hectar, amrywiaeth eang o ddefnyddiau, gyda darpariaeth ar gyfer archfarchnad 75,000 troedfedd sgwâr, canolfan feddygol, 280 o gartrefi newydd, meysydd chwarae newydd, a darpariaeth ar gyfer ffyrdd newydd trwy'r cynllun i'w agor i gymunedau ehangach. Disgwylir i Orllewin Cross Hands ddenu cyfanswm o fwy na £25m o fuddsoddiad preifat.

## Parth Preswyl a Defnydd Cymysg – Gwaith Brics Emlyn

Ailddatblygiad at ddefnydd cymysg ar gyn-safle Gwaith Brics Emlyn, sy'n cynnwys cynlluniau ar gyfer 250 o gartrefi ar safle 21-hectar. Lleolir y safle i'r gogledd-ddwyrain i Barth Twf Cross Hands ar y ffin â Phenygroes, ac mae'n ddatblygiad allweddol sy'n elwa ar y gwaith Cyfnod 2 arfaethedig ar Ffordd Gysylltu Cross Hands.

Yn wyneb maint Parth Twf Cross Hands, bydd llawer o ddatblygiadau economaidd eraill yn hwyluso twf y parth, yn cynnwys ail-ddatblygiad gwerth £18.4m Ysgol Maes y Gwendraeth; cyfnewidfa fysis Cross Hands; band eang cyflym iawn, a gofal, o safbwynt ecolegol, wrth fynd ati i adfywio.

parhad →









MAP O ARDAL  
PARTH TWF  
CROSS HANDS

Allwedd

- PARTH BWYD:  
Parc Bwyd Cross Hands
- PARTH BUSNES:  
Parc Busnes Cross Hands
- PARTH CYFLOGAETH:  
Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain  
Cross Hands
- PARTH DEFNYDD CYMYSG:  
Gorllewin Cross Hands
- PARTH PRESWYL A DEFNYDD CYMYSG:  
Gwaith Brics Emlyn
- FFYRDD CYSYLLTU'R DYFODOL:  
Teithlwybrau i'w pennu

Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013. Arolwg Ordans 100023377









# Llanelli

**Llanelli yw pumed ardal ddinesig Cymru o ran maint, ac mae ganddi ran bwysig i'w chwarae yn Ninas-ranbarth newydd Bae Abertawe.**

Er iddi elwa ar fuddsoddi graddfa-fawr yn y blynyddoedd diwethaf mewn llawer sector, yn cynnwys hamdden, diwylliant, siopau, tirlunio a masnach, bydd canol y dref yn gweld gwelliannau pellach.

Rhagwelir y buddsoddir rhyw £60m yng nghanol tref Llanelli, gan ymdrin ag anghenion tai a darparu gwell mynediad trwy waith adnewyddu sylfaenol ar ardal y porth o gwmpas Heol yr Orsaf, yn cynnwys gwelliannau i orsaf y rheilffordd, uwchraddio tai cyhoeddus a phreifat, gwella effeithlonrwydd ynni 200 o gartrefi, a gwella amgylchedd trefol y porth. Mae'r buddsoddiad hwn hefyd yn cyflenwi ac yn ychwanegu at weithgareddau cyfagos Cyd-fenter Morlan Elli ac yn cysylltu'n uniongyrchol â'r prif gysylltiadau cludiant o fewn Dinas-ranbarth Bae Abertawe a Llain Arfordirol Sir Gâr.

Stryd y Cyfle – er mwyn cyflawni ei amcanion, mae Cyngor Sir Gâr wedi prynu sawl eiddo gwag ar Stryd Stepney yng nghanol tref Llanelli. Bydd datblygiad Stryd y Cyfle yn meithrin swyddi, sgiliau a thwf. Bydd y gofod yn cyfrannu at gymysgedd amrywiol ar y stryd fawr, yn cynnwys gofod gwerthu hyblyg, a bydd yn cefnogi busnesau newydd a mentrau cymdeithasol trwy ddarparu hyfforddiant a gwasanaethau. Bydd y project hefyd yn ateb anghenion tai lleol trwy greu'r unedau eiddo preswyl fforddiadwy un- a dwy-lofft sydd ei hangen yn ôl arolygon anghenion tai diweddar.


Ceir nifer o fentrau Datblygu Cymuned ehangach trwy raglen Cymunedau yn Gyntaf yn Llanelli sy'n cyfrannu a chynnal y project Trawsnewidiol yn y dref. Bydd y rhaglen hon yn parhau i weithio yn yr ardal, gan ganolbwyntio ar dair thema Ffyniant, Iechyd, ac Addysg, oll er mwyn mynd i'r afael â thlodi. Cyflawnir hynny trwy ganolbwyntio ar gefnogaeth ddigidol sylfaenol a chynhwysedd ariannol; rhaglenni gwirfoddoli a datblygu sgiliau; a gweithio mewn cyd-destun adfywio ehangach, yn cynnwys datblygu eiddo fel adeilad y YMCA trwy ei adfer a'i drawsnewid.

Mae gwaith ar y gweill hefyd i droi Llanelli'n Ardal Gwella Busnes. Bydd y ffordd arloesol hon o fynd ati yn golygu bod masnach yn cydweithio'n glos gyda'r Cyngor a nifer o fudd-ddeiliaid preifat a gwirfoddol ar bedair thema allweddol:

- + **Bywiogi'r siopau lleol a chryfhau'r gymuned fusnes**
- + **Marchnata asedion arbennig Llanelli a newid canfyddiadau**
- + **Cynyddu diogelwch a glendid**
- + **Gwella hygyrchedd a mynediad i'r dref**

Bydd cronfa fenthycyca o £700,000 ar gyfer canol y dref ar gael i'r gymuned fusnes ar gyfer gwella eiddo.

parhad →





# Llanelli

## parhad

Nodwyd y posibilrwydd y gellid symud rhai safleoedd cyflogaeth sector cyhoeddus i ardaloedd yng nghanol y dref i ddod â mwy o fywyd i'r ardal yn ystod yr wythnos a chynyddu masnach y dref o ganlyniad. Y nod yw creu amgylchedd buddsoddi hyderus tra'n adnewyddu'r ardal yn gyffredinol. Bydd angen gweithredu'n eofn i newid pethau ac osgoi parhau i wneud yr un peth. Gallai hyn gynnwys defnyddio pwerau statudol i adfywio'r ardaloedd gwaethaf – mae angen newid meddylfryd a ffyrdd o fynd ati er mwyn gwneud i bethau ddigwydd.

Mae hyd a lled y gwahanol weithgareddau adfywio yn Llanelli yn eu crynswth yn troi'r ardal yn broiect Trawsnewidiol ynddo'i hun; mae'r uchelgais i barhau i ddod â buddiannau economaidd i'r dref yn gryfach nag erioed.









# Yr Economi Wledig

**Mae'r Project Trawsnewidiol olaf a nodwyd yn canolbwyntio ar economi wledig Sir Gâr.**

Mae'r project hwn yn unol â'r Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer cefn gwlad Sir Gâr a ddatblygwyd gan y Grŵp Gweithredu Lleol – y Grŵp Cefn Gwlad – i ddarparu fframwaith cyffredinol ar gyfer adfywio cefn gwlad Sir Gâr mewn modd cynaliadwy.

Gydag ardaloedd cefn gwlad yn cynnwys mwy na 40% o boblogaeth y sir, mae gan yr economi wledig ran hanfodol i'w chwarae o ran cyrchu nodau adfywio ehangach y sir. Diffinir y cyfeiriad strategol gan y blaenoriaethau yn ardal ehangach Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Nodweddion a phroblemau allweddol cefn gwlad Sir Gâr yw:

- + Mwyafrif helaeth o fusnesau bychain a chanolig eu maint, gydag 87% o fusnesau yn cyflogi llai na 9 o weithwyr
- + Cyfran uwch wedi eu cyflogi mewn gwasanaethau â gwerth ychwanegol isel, fel amaeth
- + Mae allfudo gan bobl ifanc ddawnus a medrus yn broblem allweddol i ardaloedd cefn-gwlad, lle ceir cyfran is nag arfer o bobl 20-39 oed
- + Mae darpariaeth cludiant cyhoeddus rhannau o gefn gwlad Sir Gâr yn dal yn fain, o ran treiddiad ac amledd y gwasanaeth
- + Mynediad araf a chyfyngedig i fand eang mewn ardaloedd gwledig mwy diarffordd
- + Diffyg gofod ar gyfer cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig
- + Mae pob ward wledig, ac eithrio tref Caerfyrddin a Llandeilo, yn ymddangos yn y 30% mwyaf difreintiedig o ran mynediad i wasanaethau
- + Mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi disgyn o 6.2%, i 43.9%, sy'n cynrychioli colled o 11,165 o siaradwyr Cymraeg yn y sir rhwng 1991 a 2011

Mae'r strategaeth leol yn nodi dull partneriaeth o fynd i'r afael â'r anawsterau allweddol sy'n llesteirio twf cyflogaeth a ffyniant yng nghefn gwlad Sir Gâr. Mae'r dulliau gweithredu a arfaethir ar gyfer yr economi wledig yn dilyn nodau strategol Dinas-ranbarth Bae Abertawe, sef:

## **Cefnogi twf busnes, dargadwedd, ac arbenigo**

Ychwanegwyd at sectorau traddodiadol fel amaethu gan dwristiaeth, addysg, iechyd, a diwydiannau creadigol fel asgwrn cefn yr economi wledig. Nid yw llawer o'r busnesau craidd sefydliedig yn dod o fewn y categori twf uchel. Y nod felly yw denu, datblygu a chadw stoc fwy o fusnesau cynaliadwy, busnesau mwy eu gwerth a mwy cynhyrchiol, a charfan fwy o fentrau bach a chanolig eu maint sydd â'r gallu i fanteisio ar dwf buan trwy:

- + Ddarparu cyngor busnes pwrpasol a chefnogaeth i ddargadwedd a thwf
- + Cynyddu cyfloedd gwaith trwy gefnogi twf cyflogaeth o fewn busnesau brodorol
- + Atgyfnerthu cryfder cyflogwyr brodorol
- + Cynyddu cynhyrchedd, amrywiaeth ac effeithiolrwydd busnesau ffermio a choedwigaeth
- + Datblygu diwylliant mwy mentergarol

## **Cefnogi gweithlu medrus ac uchelgeisiol**

Bydd datblygu economi lewyrchus a chynaliadwy gyda swyddi o werth uwch yn golygu gwella lefelau sgiliau lleol. Er mwyn sicrhau hynny, rhaid uwchraddio sgiliau'r gweithlu presennol i ymateb i her gofynion busnes y dyfodol, a sicrhau bod pobl ifanc yn gadael addysg â'r cymwysterau priodol a gwybodaeth am gyfleoedd gwaith yn y dyfodol, trwy:

- + Wella cyrhaeddiad ac uchelgais
- + Sicrhau bod y ddarpariaeth addysg yn gweddu i, ac wedi ei llywio gan, anghenion cyflogwyr

parhad →







# Yr Economi Wledig parhad

## Creu cymaint o swyddi ag sy'n bosibl ac elwa i'r eithaf ar gyfleoedd cyflogaeth

Awgrymir gan amcanestyniadau y bydd adferiad a thwf economaidd yn dilyn patrwm o dwf heb swyddi. Gwaethygir hyn gan y ffaith bod cyfran gymharol uchel o'r boblogaeth oed gwaith yn yr economi wledig yn cael eu cyfrif yn economaidd anweithgar. Mewn ymateb, nod y strategaeth yw cynyddu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy a galluogi pobl i fanteisio arnynt trwy:

- + **Gefnogi pobl economaidd anweithgar yn ôl i mewn i swyddi**
- + **Hyrwyddo a hwyluso datblygiad mentrau lleol**

## Cefnogi datblygiad economi wybodaeth

Mae angen buddsoddi pellach mewn defnyddio technolegau newydd i sicrhau bod ein busnesau lleol yn gallu cystadlu mewn marchnadoedd ehangach trwy:

- + **Gefnogi ac annog MBCau i ddechrau defnyddio technolegau newydd a'u defnyddio'n ehangach**
- + **Cryfhau cysylltiadau rhwng MBCau a chyfleusterau ymchwil**

## Datblygu arbenigrwydd a dengarwch yr ardal o ran twristiaeth, buddsoddi busnes ac ymdrin â thlodi cefn gwlad

Mae cefn gwlad Sir Gâr yn llawn lleoliadau arbennig a deniadol dros ben, gyda chymysgedd o drefi marchnad a thirweddau ysgubol. Er mwyn denu a chadw pobl ddawnus, rhaid sicrhau bod gwasanaethau allweddol, sy'n cael eu colli'n raddol mewn llawer o drefi a phentrefi cefn gwlad, ar gael ar eu cyfer. Mae isadeiledd yn elfen hanfodol arall, yn cynnwys safleoedd ac adeiladau cyflogaeth, trefi marchnad deniadol, a chludiant hygyrch. Y camau gweithredu allweddol fydd:

- + **Datblygu a gweithredu rhaglen fuddsoddi a all ddenu ymwelwyr a buddsoddwyr i'r ardal**
- + **Datblygu tir, eiddo ac isadeiledd mewn modd wedi ei dargedu**
- + **Elwa i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan isadeiledd Band Eang y Genhedlaeth Nesaf**
- + **Cefnogi a datblygu defnyddio'r iaith Gymraeg**
- + **Sicrhau bod gwasanaethau'n dal ar gael mewn ardaloedd cefn gwlad trwy ddatblygu ffyrdd newydd o'u darparu, a chefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol**

Wrth ymateb i'r her sy'n wynebu cefn gwlad Sir Gâr, bydd y project yn elwa ar nifer o ffynonellau cyllid yn cynnwys y Cynllun Datblygu Gwledig, cynllun LEADER, a chronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd eraill, yn ogystal â ffrydiau cyllido eraill.













ADRAN

# ORR







# Y dyfodol

Diben y ddogfen hon yw arddangos hyd a lled y gwaith Adfywio a wnaed yn Sir Gâr hyd yn hyn a galw sylw at brojectau Trawsnewidiol y dyfodol, sydd ar y gorwel.

Mae'r pum maes allweddol a ddiffiniwyd gan Strategaeth Dinas-ranbarth newydd Bae Abertawe yn cynnig cyfeiriad a fydd yn gwella'r economi – y mesuryddion a ddefnyddir i fesur llwyddiant yw Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) yr economi a Thwf mewn Cyflogaeth. Trwy gyplysu pum maes allweddol y strategaeth â nerth cyfunedig pedwar awdurdod lleol, darperir yr amgylchedd gorau ar gyfer cynyddu GYC a chyflogaeth dros y 15 mlynedd nesaf.

Mae sefydlu'r chwe phroject trawsnewidiol yn Sir Gâr yn cynyddu pwysigrwydd strategol nifer o'r sectorau busnes y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol. Mae creu'r Parth Bwyd ym Mharth Twf Cross Hands yn adeiladu ar seiliau cadarn a hanesyddol y diwydiannau Bwyd ac Amaethu yn y sir. Mae Llain Arfordirol Sir Gâr a'i leoliad cyfleus ar gyfer cyrchfannau twristaidd poblogaidd eraill yn rhoi'r sector Hamdden a Thwristiaeth mewn safle allweddol i hybu datblygiadau eraill. At hynny, bydd adleoli S4C i dre Caerfyrddin yn dyrchafu'r sir ar fyrder i safle blaenllaw yn sector Diwydiannau Creadigol Cymru.

Mae cyfansoddiad economi Sir Gâr yn amrywiol ac yn anferth, yn cynnwys llawer mwy eto na'r hyn a ddigrifir yma. Yn ogystal â'i holl atyniadau i dwristiaid, bu datblygiadau isadeiledd ac adeiladol anferth, ac mae ganddi gymuned fusnes amrywiol. Goresgynwyd llawer yn y cyfnod diweddar, a rhagwelir twf parhaus, fel y gwelir yn y chwe phroject Trawsnewidiol sy'n lledaenu ar draws Sir Gâr. Deilliodd y projectau hyn o strategaeth ddyfal a manwl-gywir sydd wedi cynhyrchu'r canlyniadau roedd eu hangen ledled y sir – fe ddefnyddiwn bob pŵer sydd ar gael i ni i gyrraedd y nod, ac mae ffordd newydd o weithio yn hanfodol. Gosodwyd y seiliau ar gyfer creu 5,000 o swyddi newydd.

Mae safle Sir Gâr yn Ninas-ranbarth newydd Bae Abertawe yn un cyffrous. Mae'n rhaid meddwl ar raddfa fawr yn mhob maes bellach er mwyn gallu cyflawni gwaith adfywio. Dim ond trwy gydweithio a chanfod ffyrdd arloesol o fynd ati yr eir â'r maen i'r wal.


# Cysylltu

## Cysylltu

Mae'r projectau sydd ar y gweill a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn eang eu cwmpas, ac nid yw'r rhestr yn un gyflawn. Mae Datblygu Economaidd yn amrywiol yn ei hanfod: am y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl ddatblygiadau a hynt gweithgareddau partneriaid, da chi, cadwch mewn cysylltiad â'r canlynol:

### Dinas-ranbarth Bae Abertawe


[www.swanseabaycityregion.com](http://www.swanseabaycityregion.com)

 @SB\_CityRegion

### Cyngor Sir Gâr

01269 590214

[www.carmarthenshire.gov.wales](http://www.carmarthenshire.gov.wales)

 @CarmsCouncil





